Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad Dilynol o'r Trefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu – Cyngor Dinas Casnewydd

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4526A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Nid yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael yn llawn â'r tri argymhelliad a amlygwyd yn ein hadroddiad o 2019 o hyd, ac felly mae gwendidau yn parhau yn ei drefniadau diogelu corfforaethol.


Yr hyn a adolygwyd gennym a pham 4

Yr hyn a ganfuwyd gennym 4

Arddangosyn 1 Crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn pob un o argymhellion 2015 5

Arddangosyn 2 Argymhellion newydd 2024 9

# Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Yn 2015 cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad i'r Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru. Gwnaeth yr adroddiad hwnnw wyth argymhelliad, gyda saith ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chynghorau ac un yn ymwneud â Llywodraeth Cymru.

2 Yn 2019, fe wnaethom asesu sut roedd y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r argymhellion yn ein hadroddiad o 2015[1]. Canfuwyd gennym fod y Cyngor wedi gweithredu ar ein holl argymhellion blaenorol, ond ni aethpwyd i'r afael yn llawn ag agweddau ar rai eto. Nid oedd y Cyngor wedi mynd i'r afael yn llawn â thri o'r saith argymhelliad.

3 Yn yr adolygiad hwn, rydym wedi asesu i ba raddau y mae'r Cyngor bellach wedi mynd i'r afael yn llawn â'r tri argymhelliad cenedlaethol a oedd yn weddill.

4 Mae trefniadau effeithiol ar gyfer diogelu corfforaethol yn bwysig i'r Cyngor sicrhau bod ei drigolion – yn blant ac oedolion yn y sir - yn cael eu cadw'n ddiogel rhag niwed. Canolbwyntiodd ein hadolygiad ar drefniadau corfforaethol y Cyngor cyfan ar gyfer diogelu. Nid oedd yn adolygiad o drefniadau diogelu penodol mewn Addysg na Gwasanaethau Cymdeithasol.

5 Gwnaethom gynnal yr adolygiad rhwng mis Mai 2024 a mis Gorffennaf 2024.

# Yr hyn a ganfuwyd gennym

6 Yn gyffredinol, canfuom **nad yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael yn llawn â'r tri argymhelliad a amlygwyd yn ein hadroddiad o 2019 o hyd, ac felly mae gwendidau yn parhau yn ei drefniadau diogelu corfforaethol.** Rydym yn cynnwys crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn ein hargymhellion blaenorol yn **Arddangosyn 1**.

7 Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad newydd, a gyflwynir yn **Arddangosyn 2.** Mae'r argymhellion newydd hyn yn disodli ein hargymhellion blaenorol o 2015.

[1] Adolygiad dilynol o drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant

# Crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn pob un o argymhellion 2015

**Arddangosyn 1: Yn cyflwyno crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn pob un o'r tri argymhelliad a gyhoeddwyd yn ein hadroddiad cenedlaethol yn 2015 na aethpwyd i'r afael â nhw yn llawn ar adeg ein hadroddiad yn 2019**

**Argymhelliad 3 (o'n hadroddiad cenedlaethol yn 2015) – Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:**

- sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu ac Atal (GDA) a chydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant;
- creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau GDA; a
- mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth.

**Mae gweithrediad argymhelliad 3 (o'n hadroddiad cenedlaethol yn 2015) yn anghyflawn**

**Canfyddiadau o'r adroddiad dilynol hwn:**

1. Mae gan y Cyngor bolisïau sy'n cyd-fynd â disgrifiad pwynt bwled cyntaf argymhelliad 3 o'n hadroddiad cenedlaethol yn 2015.
2. Fodd bynnag, canfu ein hadroddiad o 2019 'Nid yw'r Cyngor yn darparu rhaglen o hyfforddiant rheolaidd i reolwyr sy'n penodi ar hyn o bryd mewn perthynas â recriwtio diogel.' Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn darparu hyn o hyd. Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn nodi bod y Cyngor yn 'Sicrhau bod rheolwyr sy'n gyfrifol am recriwtio yn derbyn hyfforddiant recriwtio diogel sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.' Nid yw hyn yn cael ei wneud o hyd ar hyn o bryd, felly mae angen ei wneud i gryfhau recriwtio diogel a bodloni gofynion y Polisi Diogelu Corfforaethol.
3. Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei Bolisi Defnyddio a Rheoli Gwirfoddolwyr yn ddiweddar ac mae ganddo bolisïau sy'n cwmpasu recriwtio staff yn ddiogel. Fodd bynnag, nid yw'r Polisi Defnyddio a Rheoli Gwirfoddolwyr, y Polisi Gwiriadau Datgelu gan y GDA, a'r Polisi Recriwtio Diogel yn croesgyfeirio â'r Polisi Diogelu Corfforaethol i sicrhau defnydd cyson o bolisïau.

4. Mae gan y Cyngor system cydymffurfiad corfforaethol integredig ar gyfer gwiriadau GDA sy’n cwmpasu staff a gwirfoddolwyr ac sy’n llunio adroddiadau cydymffurfiad sy’n caniatáu trosolwg corfforaethol priodol.
5. Mae’r Cyngor wedi darparu tystiolaeth o ddarpariaethau cytundebol priodol sy’n hwyluso recriwtio diogel. Fodd bynnag, caiff gwaith monitro contractau ei wneud o fewn Cyfarwyddiaethau, ac nid oes trosolwg corfforaethol sy’n galluogi’r Cyngor i sicrhau ei hun bod pob Cyfarwyddiaeth yn monitro darpariaethau cysylltiedig â diogelu yn gadarn mewn contractau.

**Argymhelliad 4 (o’n hadroddiad cenedlaethol yn 2015) – Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:**

- sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a’i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;
- creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â’r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau’r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a
- mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy’n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu.

**Mae gweithrediad argymhelliad 4 (o’n hadroddiad cenedlaethol yn 2015) yn anghyflawn**

**Canfyddiadau o’r adroddiad dilynol hwn:**

1. Mae polisi Diogelu’r Cyngor yn datgan bod hyfforddiant diogelu yn orfodol i bob aelod o staff ac aelod. Mae’r Cyngor yn cynnwys hyfforddiant diogelu yn ei raglenni cynefino ar gyfer staff newydd. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, nid oes gan y Cyngor gyfraddau da o gydymffurfiad â chwblhau hyfforddiant gorfodol. Mae’r ffigurau o fis Gorffennaf 2024 yn dangos:
   - nad yw 49% o staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol. O’r rhai sydd wedi cwblhau hyfforddiant, fe’i cwblhawyd gan ychydig dros hanner y rheini dros ddwy flynedd yn ôl. Nid yw hyn yn bodloni gofyniad y Cyngor ar gyfer adnewyddu’r hyfforddiant.
   - nid yw 36% o'r aelodau wedi cwblhau naill ai'r e-ddysgu neu hyfforddiant diogelu gorfodol yn bersonol.
2. Mae’r Cyngor wedi penderfynu bod hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol yn orfodol i bob aelod o staff ac aelod. Fodd bynnag, mae adroddiad diogelu corfforaethol blynyddol 2023-24 y Cyngor yn dangos bod llai na 57% o staff wedi cwblhau’r hyfforddiant. Mae 26 o 51 o aelodau wedi cwblhau’r hyfforddiant hwn, sy’n gyfradd cydymffurfiad o ychydig yn llai na 51%.
3. Mae hyfforddiant diogelu yn orfodol i wirfoddolwyr yn rhan o’r broses gynefino. Fodd bynnag, ym mis Gorffennaf 2024, dim ond 12 o 26 o wirfoddolwyr oedd wedi cwblhau’r hyfforddiant, sy’n gyfradd gydymffurfio o ychydig dros 46%.

4. Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant diogelu i staff ysgolion. Erbyn mis Ebrill 2025, y bwriad yw y bydd 100% o ysgolion wedi derbyn hyfforddiant. Dywedodd y Cyngor wrthym fod tua 70% o ysgolion wedi derbyn yr hyfforddiant hwn ar hyn o bryd. Cyfrifoldeb Unigolion Diogelu Dynodedig ysgolion unigol yw darparu hyfforddiant diogelu i unrhyw staff a fethodd yr hyfforddiant, ynghyd ag unrhyw ddechreuwyr newydd. Mae'n rhaid i ysgolion hefyd gwblhau hunanwerthusiadau diogelu ac mae'r Cyngor yn gwirio sampl o'r rheini. Mae'r hunanwerthusiadau hyn yn rhoi cyfradd ganrannol o gydymffurfiad â hyfforddiant diogelu.
5. Dim ond 16% oedd cyfradd cydymffurfiad staff ysgolion â hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol ar adeg ein hadolygiad.
6. Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant i lywodraethwyr diogelu dynodedig. Mae'r Cyngor hefyd yn rhannu cyflwyniad diogelu gydag Unigolion Diogelu Dynodedig i'w roi i bob llywodraethwr. Mae'r Cyngor wedi cael anawsterau yn cadw cofnodion cywir o gwblhad yr hyfforddiant hwn gan y gall llywodraethwyr fynychu hyfforddiant ar fyr-rybudd. O fis Medi 2024, bydd hyfforddiant i lywodraethwyr yn cael ei ddarparu trwy blatfform hyfforddi newydd a ddylai helpu'r Cyngor i fod â chofnodion gwell o'r cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant.
7. Nid oes gan y Cyngor system corfforaeth gyfan gadarn i nodi, olrhain a monitro cydymffurfiad o ran mynychu hyfforddiant diogelu ar gyfer pob adran, aelod etholedig, ysgol, llywodraethwr a gwirfoddolwr y cyngor. Rydym hefyd wedi nodi gwendidau yn nhrefniadau cadw cofnodion y Cyngor. Cofnodir bod hyfforddiant wedi'i gwblhau yn y system adnoddau dynol gorfforaethol, iTrent, a chaiff yr wybodaeth ei hallgludo i daenlen. Yna, mae'r adran adnoddau dynol yn colynnu'r data â llaw i ddarganfod pwy sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant. Nid yw'r dull hwn yn effeithlon nac yn effeithiol gan fod cywirdeb y ffigurau cwblhau hyfforddiant wedi cael ei gwestiynu gan rai aelodau staff sy'n credu eu bod wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol er bod y cofnodion yn dangos yn wahanol. Yn rhan o'r adolygiad hwn, rydym wedi gweld enghraifft o gofnodion nad ydynt yn gwbl gywir.
8. Mae'r Cyngor wedi darparu tystiolaeth o ddarpariaethau priodol yn cael eu cynnwys mewn contractau i hwyluso'r broses o sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn cael ei gyflawni. Fodd bynnag, fel y soniwyd uchod, ceir diffyg trosolwg corfforaethol sy'n galluogi'r Cyngor i sicrhau ei hun bod pob Cyfarwyddiaeth yn monitro'n gadarn bod y darpariaethau hyn yn cael eu bodloni.

**Argymhelliad 6 (o'n hadroddiad cenedlaethol yn 2015) – Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â'r canlynol:**

- meincnodi a chymharu ag eraill;
- casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;
- data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;
- data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDA; a
- pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor.

**Mae gweithrediad argymhelliad 6 (o'n hadroddiad cenedlaethol yn 2015) yn <u>anghyflawn</u>**

**Canfyddiadau o’r adroddiad dilynol hwn:**

1. Mae’r Cyngor yn darparu adroddiad diogelu corfforaethol blynyddol i aelodau. Cyflwynir yr adroddiad i’r Pwyllgor Trosolwg a Rheoli Craffu, y Cabinet a’r Cyngor llawn. Fodd bynnag, mae’r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig am berfformiad, felly mae’n anodd i aelodau gael sicrwydd o effeithiolrwydd trefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor o’r wybodaeth a gyflwynir.
2. Mae’r Cyngor wedi datblygu rhai dangosyddion perfformiad drafft i’w cynnwys mewn adroddiadau diogelu corfforaethol blynyddol yn y dyfodol. Mae’r rhain yn cynnwys mesurau ar wiriadau GDA a gwybodaeth am y broses hunanasesu flynyddol diogelu maes gwasanaeth blynyddol. Byddai dangosyddion perfformiad o’r fath yn gwella trosolwg aelodau o ddiogelu corfforaethol pe baent yn cael eu cynnwys.
3. Dylai’r Cyngor gynnwys gwybodaeth am dueddiadau i hwyluso trosolwg ac atebolrwydd. Yn adroddiad diogelu corfforaethol blynyddol 2022-23, roedd cydymffurfiad staff ysgolion â hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol wedi’i gynnwys, ac roedd y gyfradd gydymffurfio yn wael. Fodd bynnag, nid oedd yr wybodaeth hon wedi’i chynnwys yn adroddiad blynyddol 2023-24, felly nid oedd aelodau yn gallu gweld y duedd a’r sefyllfa bresennol (sydd, fel y soniwyd uchod, hefyd yn wael). Nododd ein hadroddiad o 2019 hefyd y dylai’r Cyngor sicrhau bod data tueddiadau yn cael eu cyflwyno dros amser fel y gall darllenwyr ddeall newidiadau i berfformiad diogelu.
4. Cynhaliodd yr adran archwilio mewnol adolygiad Recriwtio a Dethol (gan gynnwys Recriwtio Mwy Diogel) yn 2022-23, ond nid yw’r Cyngor wedi cynnwys canlyniad yr adolygiad hwnnw yn adroddiadau diogelu corfforaethol blynyddol 2022-23 na 2023-24. Mae peidio â chynnwys yr wybodaeth hon hefyd yn amharu ar allu aelodau i ddeall yn llawn a chael sicrwydd ynghylch trefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor.

## Argymhellion newydd 2024

**Arddangosyn 2: Yn cyflwyno argymhellion newydd yn deillio o’r adolygiad dilynol hwn**

**A1 Recriwtio mwy diogel**

a) Dylai’r Cyngor ddarparu hyfforddiant recriwtio mwy diogelu i reolwyr i helpu i sicrhau nad yw’r Cyngor a’i drigolion yn cael eu hamlygu i risg.

b) Dylai’r Cyngor sicrhau bod ei Bolisi Defnyddio a Rheoli Gwirfoddolwyr, ei Bolisi Gwiriadau Datgeliadau GDA, a Chanllawiau Recriwtio Mwy Diogel yn croesgyfeirio i Bolisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor i helpu i sicrhau cysondeb o ran gweithrediad polisïau.

**A2 Hyfforddiant diogelu**

a) Dylai’r Cyngor wella lefel y cydymffurfiad â chwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol i staff, aelodau a gwirfoddolwyr.

b) Dylai’r Cyngor wella lefel y cydymffurfiad â chwblhau hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol gorfodol i staff (gan gynnwys staff ysgolion) ac aelodau fel bod staff ac aelodau yn chwarae eu rhan yn y gwaith o helpu i gadw pobl yn ddiogel rhag niwed a cham-driniaeth.

c) Dylai’r Cyngor sicrhau bod cofnodion sy’n cael eu cadw o gydymffurfiad â hyfforddiant diogelu yn addas i’r diben fel y gall y Cyngor fod â hyder yn ei ystadegau cydymffurfiad â hyfforddiant diogelu.

**A3 Adrodd ar ddiogelu corfforaethol**

I gryfhau trosolwg a her aelodau, dylai’r Cyngor wella ansawdd ac amrywiaeth gwybodaeth am berfformiad a gyflwynir yn ei adroddiad diogelu corfforaethol blynyddol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth berthnasol am dueddiadau.

**A4 Rheoli contractau**

Dylai’r Cyngor sicrhau ei hun bod monitro priodol o ddarpariaethau cytundebol diogelu ar draws pob Cyfarwyddiaeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y cydymffurfir â darpariaethau cytundebol o ran diogelu a bod y rhai a gomisiynwyd i wneud gwaith ar ran y Cyngor yn cyflawni eu cyfrifoldebau diogelu, gan sicrhau drwy hynny bod y risg i’r Cyngor a’i drigolion mor fach â phosibl.

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.